Reham Bassal

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Ar lefel bersonol, mae ymuno ag CGGC yn apelgar tu hwnt gan fy mod wastad wedi bod yn frwd am y sector gwirfoddol ers dod i Gymru o dramor. Pan symudais i'r DU o'r Dwyrain Canol yn 2016, ymgymrais â gwaith cyfieithu gwirfoddol a chwrdd â defnyddwyr gwasanaethau yn Oasis, mudiad i ffoaduriaid yng Nghaerdydd, cyn mynd i mewn i'r farchnad waith. Yn fy ngyrfa ers hynny, rwyf wedi manteisio ar bob cyfle i gefnogi elusennau a mudiadau gwirfoddol, e.e. Crisis ac ymwneud â'r Big Issue yn fy rôl bresennol.

Yn fy swydd bresennol, a'm swyddi blaenorol, mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR) wedi syrthio ar ysgwyddau'r tîm marchnata, a oedd yn golygu fy mod yn gyfrifol am drefnu a rhedeg gweithgareddau gwirfoddol o fewn y cwmni, ac rwyf hefyd wedi gweithio'n ddiweddar ar ymgyrch codi arian ar gyfer elusen leol i bobl ddigartref o'r enw *Zac's Place*. Rwyf wedi gweld pa mor heriol y gall ymgyrchoedd codi arian fod, yn enwedig gyda'r argyfwng costau byw presennol.

Fy nod yw cyflwyno'r arbenigedd a'r wybodaeth rwyf wedi'u hennill o'r Rhaglen Llwybr i'r Bwrdd a'm gwaith bob dydd fel Swyddog Marchnata Digidol Gweithredol, ynghyd â'm brwdfrydedd i wneud bywydau pobl yn well, drwy rymuso mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i ddod ynghyd er budd y gymdeithas ehangach.